

Ranibizumab a meddyginiaethau biodebyg

Gwybodaeth i'r defnyddiwr

Pam rydw i'n derbyn y daflen hon?

Ar hyn o bryd rydych yn cael eich trin â ranibizumab. Cyfeirir at y cynnyrch hwn yn gyffredin gyda'i enw brand Lucentis®. Tan yn ddiweddar, dim ond un gwneuthurwr a gynhyrchodd ranibizumab.

Mae Ranibizumab bellach ar gael gan wneuthurwr arall. Gelwir fersiwn y gwneuthurwr hwn o ranibizumab yn feddyginiaeth fiodebyg. Mae'r GIG yng Nghymru bellach yn defnyddio fersiwn fiodebyg o ranibizumab o'r enw Ongavia®. Yn y dyfodol, gall fersiynau biodebyg eraill o ranibizumab ddod ar gael gan wneuthurwyr eraill.

Beth yw meddyginiaeth fiodebyg?

Mae Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) wedi diffinio biodebyg fel meddyginiaeth sy'n debyg o ran ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd i'r cynnyrch biolegol trwyddedig gwreiddiol. Mae hyn yn golygu bod meddyginiaethau biodebyg (fel Ongavia®) yn cael gwahaniaethau strwythurol bach o'r cynnyrch trwyddedig gwreiddiol (Lucentis®) ond nid yw hyn yn newid pa mor dda mae'r feddyginiaeth yn gweithio, pa mor ddiogel ydyw, na sut mae'r cyffur yn ymateb gyda system imiwnedd y corff.

Caiff meddyginiaethau biodebyg eu rheoleiddio mewn ffordd debyg i'r cynnyrch trwyddedig gwreiddiol ac mae rhaid iddynt fodloni'r un safonau diogelwch, ansawdd ac effeithiolrwydd.

Beth bydd y newid yn ei olygu i mi?

Oherwydd bod Ongavia® a Lucentis® yn cynnwys yr un cynnyrch gweithredol (ranibizumab), mae'r driniaeth a gewch am gyflwr eich llygad yn aros heb ei newid.

Fel gyda phob meddyginiaeth, os byddwch yn profi unrhyw sgil effeithiau o'ch triniaeth, dylech roi gwybod i'ch ymarferydd offthalmoleg, meddyg, nyrs neu fferylllydd. Gallwch hefyd ddefnyddio'r ap Cerdyn Melyn (i'w lawrlwytho o [Google Play](#) neu [Apple App Store](#)) neu'r [wefan](#) i roi gwybod am sgil effeithiau.

Beth yw ranibizumab?

Mae Ranibizumab yn feddyginiaeth sy'n cael ei chwistrellu i'r llygad gan offthalmolegydd neu ymarferydd offthalmoleg cymwys.

Am beth mae ranibizumab yn cael ei ddefnyddio?

Mae Ranibizumab yn perthyn i grŵp o feddyginiaethau o'r enw triniaeth wrth-Ffactor Twf Endothelaidd Fasgwlaidd (anti-VEGF). Mae Ranibizumab yn un o nifer o driniaethau a ddefnyddir ar gyfer ystod o gyflyrau llygaid sy'n effeithio ar y retina (y leinin meinwe sensitif i olau yng nghefn y llygad).

Rhoddir Ranibizumab fel cwrs o bigiadau i'r llygad. Dros amser, gall y pigiadau atal colli golwg ymhellach ac, mewn rhai achosion, gallant wella eich golwg. Bydd eich offthalmolegydd neu ymarferydd offthalmoleg yn trafod nifer ac amllder pigiadau gyda chi fel rhan o'ch cynllun triniaeth.

Cyngor pellach

Os oes gennych ymholiadau pellach am ranibizumab neu feddyginiaethau biodebyg, trafodwch gydag aelod o'ch tîm clinigol offthalmoleg neu fferylllydd sy'n gallu eich cynghori ar eich triniaeth.

Mae gan y Macular Society Wasanaeth Cyngor a Gwybodaeth i gynnig cymorth ac arweiniad: 0300 3030 111.

Mae adnoddau pellach ar gael ar wefan Cyngor Cymru i'r Deillion ar <http://www.wcbccd.org.uk/support> y gall fod o gymorth i chi.

This leaflet is also available in English Mae'r daflen hon hefyd ar gael yn Saesneg.